**Dinas a Sir Abertawe**

# Nodiadau'r Panel Ymchwiliad Craffu – Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 15 Tachwedd 2017 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M H Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

**Y Cynghorydd(wyr)**
C L Philpott

**Aelodau Cyfetholedig(wyr)**
D Anderson-Thomas

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Mark Child | Aelod y Cabinet - Iechyd a Lles |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |
| Julie Thomas | Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): T J Hennegan, Y V Jardine, S M Jones a/ac E J King

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

2 **Adroddiad Effaith Ymchwiliad Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc a'r diweddaraf ar y cynnydd a wnaed**

Roedd y Cynghorydd Mark Child, Aelod y Cabinet dros Iechyd a Lles a Julie Thomas, Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno'r adroddiad effaith/dilynol.

Trafodwyd y materion canlynol:

- Roedd y panel yn pryderu am nad oedd yr arweinydd iechyd yn gallu dod i'r cyfarfod.
- Cytunodd Bae'r Gorllewin fod y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc yn flaenoriaeth ar y cyd i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Croesewir hyn gan y panel.

- Bydd y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol dan ofal Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (PABM) unwaith eto o fis Ebrill 2018 fel y gellir eu hintegreiddio â darpariaeth leol. Mae angen i'r gwasanaethau hyn gyd-fynd yn agosach â gwasanaethau eraill gan gynnwys ysgolion, addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol. Gwnaed rhywfaint o gynnydd, ond mae'n fach iawn.
- Sefydlwyd Grŵp Tasg a Gorffen i edrych ar ba fodel o ofal sylfaenol i'w ddatblygu pan ddaw yn ôl i PABM.
- Mae Llywodraeth Cymru'n ariannu 3 swydd cyswllt gofal sylfaenol y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc ar draws y rhanbarth. Mae'r swyddi wedi'u hysbysebu, ond un ymgeisydd y flwyddyn gaiff ei benodi. Croesawodd y panel y cyllid hwn ond mae'n pryderu ynghylch y cyllid cyfyngedig ac a yw'n gynaliadwy
- Effaith gadarnhaol yr ymchwiliad yw bod y drws blaen yn cael ei reoli'n fwy effeithiol drwy reoli'r rhestr aros o blant i'w hasesu, fodd bynnag, ni fwriedir iddo fod yn wasanaeth porthor ac mae'n rhaid i blant aros o hyd i gael eu gweld. Roedd y panel yn pryderu bod problem o ran drws blaen y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc.
- Tudalen 28 o'r adroddiad, Atodiad 1 Cynllun Cyflawni Bwrdd Iechyd PABM 2017-19 CAMHS ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc - roedd y panel yn pryderu ynghylch rhai o'r ffigurau. Cyrhaeddodd Mesur 2 100% ym mis Mawrth 2017, ond 37.1% oedd y ffigur ym mis Gorffennaf. Roedd Mesur 3 yn 50% ym mis Mawrth 2017 ond mae wedi bod yn sero ers hynny. Byddai'n ddefnyddiol gweld y niferoedd y tu ôl i'r canrannau ar gyfer y mesurau hyn.

## 3 Panel i drafod syniadau am gynnydd a chytuno ar adborth

Trafododd y panel a daethpwyd i'r casgliadau canlynol:

- Mae 5 o'r argymhellion wedi'u rhoi ar waith yn llawn, mae 6 wedi'u rhoi ar waith yn rhannol ac mae 3 heb eu rhoi ar waith.
- Roedd y panel yn siomedig â chyflymder y broses roi ar waith a'r cynnydd. Fodd bynnag, mae'n cydnabod y cafwyd peth cynnydd wrth i rai o'r argymhellion gael eu bodloni.
- Cytunodd y panel y byddai'n ailgynnull mewn 9 i 12 mis i adolygu cynnydd gan nad yw pob argymhelliad wedi'i fodloni, cyn y gellir cwblhau'r gwaith monitro. Bydd y panel yn chwilio am welliannau a chanlyniadau cyflym.

Yn dilyn y cyfarfod hwn:

a) Bydd Cynullydd y panel yn anfon llythyr at Aelod y Cabinet gan grynhoi'r drafodaeth ac yn amlinellu barn ac argymhellion y panel.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.10 am